**EITEM AR YR AGENDA: 19**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Mehefin 2008**

**RHAGLEN DATBLYGU AELODAU 2008/09**

**Adroddiad gan Rhian Evans,**
**Swyddog Cyswllt Aelodau**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I gynghori aelodau o'r trefniadau i gyflwyno'r rhaglen datblygu arfaethedig i aelodau ar gyfer 2008/09

## Cefndir

**2.** Yn ei gyfarfod ar 17eg Mawrth 2008, fe arwyddodd yr Awdurdod y Datganiad o Fwriad i ymgeisio am achrediad o dan Freinlen Cymru i Gefnogi a Datblygu Aelodau: Ymagwedd i'r Awdurdodau Tân ac Achub (y Freinlen) Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru. Un o ofynion y Freinlen yw bod gan yr Awdurdod Raglen Datblygu Blynyddol yn ei lle i aelodau. Rhaid i'r Rhaglen gael ei hysbysu gan Strategaeth Datblygu Aelodau yr Awdurdod. Mae copi o'r Strategaeth yn Llawlyfr yr Aelodau.

**Gwybodaeth**

**3.** Yn ystod Gwanwyn 2007, fe sefydlodd yr Awdurdod Weithgor Diogelwch Cymunedol a Chefnogi a Datblygu Aelodau. Fe gynhaliodd y Grŵp ei gyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2007 ac mae wedi cyfarfod yn rheolaidd ers hynny. Fel mae ei enw yn awgrymu, mae gan y Gweithgor yma gylch gwaith deublyg, gyda'i gyfrifoldebau mewn perthynas â chefnogi a Datblygu Aelodau yn cwmpasu holl agweddau o gefnogi a datblygu aelodau - gan gynnwys asesu safle'r Awdurdod a chynnydd yn erbyn meincnodau'r Freinlen.

**4.** Fe gynhaliodd y Gweithgor ei gyfarfod diwethaf cyn etholiadau'r awdurdodau lleol ar 16eg Ionawr 2008. Yn ystod y cyfarfod yma, mewn ymateb i gais gan yr Awdurdod Tân ac Achub, fe ystyriodd y Gweithgor hunanasesiad yn erbyn meini prawf y Freinlen. Yn dilyn ystyriaeth o'r hunanasesiad, penderfynodd aelodau'r Grŵp argymell i'r Awdurdod symud ymlaen ag arwyddo'r Datganiad o Fwriad. Fe argymhellodd y Gweithgor, gyda golwg o wella gwybodaeth a dealltwriaeth yr Aelodau o'r Gwasanaeth, byddai'n werthfawr cael cyflwyniadau thema byr ar agweddau gwahanol o waith y Gwasanaeth cyn neu yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod llawn.

**5.** Bydd Aelodau wedi cyfranogi yn y Diwrnod Hyfforddiant i Aelodau a gynhaliwyd ar 11eg Mehefin 2008 eisoes. Nod y digwyddiad yma oedd rhoi gorolwg cyffredinol o'u swyddi, cyfrifoldebau a dyletswyddau fel aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub. Yn ystod y digwyddiad, rhoddwyd cyfle i aelodau weld amrediad o'r peiriannau ac offer a ddefnyddir gan y Gwasanaeth. Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddarparu'r adnoddau ariannol i brynu a chynnal yr offer yma.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**6.** Cyn cyfarfodydd heddiw, bydd yr aelodau wedi derbyn sesiwn atgoffa ar Gynllunio i Leihau Risg a Rhaglen Gwella Cymru ac yn ystod y cyfarfod, rhoddir cyflwyniad ar Drefniadau Hyfforddi a Datblygu'r Awdurdod.

**7.** Mae Digwyddiad Datblygu Aelodau i Awdurdodau Tân ac Achub Cymru Gyfan wedi cael ei drefnu ar gyfer Dydd Llun 15fed Medi 2008. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yng Ngwesty Brecon Castle, Aberhonddu ac yn cychwyn am 10 y bore gan roi cyfle delfrydol i aelodau dderbyn briff a thrafod materion a pholisïau sy'n effeithio'r holl awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

**8.** Gofyniad arall o'r Freinlen yw bod aelodau yn cytuno i gyfranogi mewn nifer penodol o ddigwyddiadau hyfforddi a datblygu yn ystod unrhyw flwyddyn. Oherwydd y gofyniad cynyddol ar amser cynghorwyr, ar y cyngor ac ar fusnes arall, cynigir, y cynhelir sesiwn hyfforddi fer cyn holl gyfarfodydd llawn o'r Awdurdod Tân ac Achub o hyn ymlaen (gweler yr adroddiad a gyflwynwyd o dan eitem fusnes 9 i Gyfarfod Blynyddol heddiw am y dyddiadau perthnasol). Bydd hyn yn cynorthwyo gydag argaeledd yr aelodau i fynychu gan fod y dyddiadau ar gyfer busnes yr Awdurdod wedi eu neilltuo eisoes. Lle bo'r angen, yn dibynnu ar y pynciau i'w cyflwyno ym mhob sesiwn, bydd angen amrywio amser cychwyn y cyfarfod busnes ychydig.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**9.** Mae rhestr o bynciau/meysydd gwaith arfaethedig fydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen ddatblygu ar gyfer 2008/09 ynghlwm fel Atodiad 1. Bydd y rhaglen ddatblygu llawn yn cael ei chyhoeddi yn y man. Bydd y rhaglen yn cyfeirio at ofynion deddfwriaethol neu gorfforaethol yn ogystal ag anghenion unigol aelodau fel nodwyd yn eu hymatebion i'r holiadur anghenion hyfforddi fydd yn cael ei ddosbarthu i'r holl aelodau yn fuan. Gofynnir i aelodau ddychwelyd yr holiadur gan y bydd yn cynorthwyo swyddogion i deilwra'r Rhaglen Datblygu Aelodau i weddu eu hanghenion.

**10.** Nid yw'r rhestr sydd ynghlwm yn un trwyadl a bydd yn datblygu dros amser. Mewn ymgais i ddarparu ar gyfer dewisiadau dysgu gwahanol aelodau, bydd y digwyddiadau yn cael eu cyflwyno mewn fformatau gwahanol. Bydd ymweliadau safle ac arddangosfeydd yn cael eu trefnu yn ychwanegol i'r sesiynau cyn cyfarfodydd yr Awdurdod.

**Argymhellion**

**11.** Fod aelodau:

**11.1** yn cytuno i gynnal sesiynau datblygu/hyfforddi cyn cyfarfodydd llawn o'r Awdurdod Tân ac Achub;

**11.2** nodi a chymeradwyo'r rhaglen hyfforddi aelodau arfaethedig ar gyfer 2008/09 fel y manylir yn Atodiad 1; ac

**11.3** yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur anghenion hyfforddi, awdurdodi'r Gweithgor Diogelwch Cymunedol a Chefnogi a Datblygu Aelodau i lunio Rhaglen Datblygu Aelodau.

**Atodiad 1**

## Cynigion ar gyfer sesiynau eraill

### Sesiynau ymwybyddiaeth

1. Swydd yr Archwilydd Allanol
2. System Datblygiad Personol Integredig
3. Diogelwch Tân a Diogelwch Tân Cymunedol
4. Cysylltiadau Diwydiannol
5. Materion yr Iaith Gymraeg
6. Materion Cydraddoldeb

### Datblygu Sgiliau

1. Craffu ac Ymgysylltiad Aelodau
2. Rheoli Parhad Busnes
3. Cynllunio Lleihau Risg a Rhaglen Gwella Cymru
4. Gweithdrefnau Achwynion a Disgyblu

### Arddangosiadau ac ymweliadau arfaethedig

1. Ymweliad â Gemau Diffoddwyr Tân y Byd 2008
2. Ymweliadau â'r Ystafell Reoli bresennol a'r Ystafell Reoli newydd
3. Cyflwyniad ar fodel FSEC Argyfwng y Gwasanaeth Tân
4. Achub gyda Rhaff/Achub o Ddŵr/Llifogydd
5. Argyfyngau Sifil Posib/Gwaith Cydnerth
6. Ymweliad â Gorsaf Dân Cymunedol Y Rhyl
7. Pentreperyglon
8. Cyfleusterau Hyfforddi Dolgellau
9. Arddangosiad Rhyddhau o Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd